




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 16 Gorffennaf 2015

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 8 Hydref 2015



[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru**

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

**At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llys, y farnwriaeth, staff ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder lleol yng Nghymru drwyddi draw.

**Hyd:** Rhwng 16/07/2015 a 08/10/2015

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** Ymgynghoriad GLITEM  
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder  
Post point 1.13  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

**Ffôn:** 0161 240 5021

**Ffacs:** 0870 761 7768

**Ebost:** [estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk)

**Sut mae ymateb:** Ymgynghoriad GLITEM  
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder  
Post point 1.13  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

**Ffôn:** 0161 240 5021

**Ffacs:** 0870 761 7768

**Ebost:** [estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk)

**Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:** Os na allwch ymateb i'r papur hwn drwy e-bost neu lythyr, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod, os gwelwch yn dda.

**Y papur ymateb:** Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi maes o law yn: [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)

## Cynnwys

Rhagair	3
Rhagymadrodd	4
Y cynigion	8
Holiadur	39
Amdanoch chi	40
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	41
Asesiad o Effaith	43
Egwyddorion ymgynghori	44

---

[leave this page blank – back of contents page]

## Rhagair

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi ymrwymo i weithio gyda'r farnwriaeth i ddiwygio ein gwasanaethau fel eu bod yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd yn well yn y byd modern. Bydd cryn fuddsoddiad yn ein galluogi i drawsnewid y ffordd y darperir cyfiawnder, gan greu gwasanaeth modern ac effeithlon. Bydd cymryd y cyfle hwn, fodd bynnag, yn golygu bod angen gwneud penderfyniadau heriol ynglŷn â'r system gyfiawnder gyfredol. Mae un penderfyniad o'r fath yn ymwneud â'r ystad llysoedd a thriwlynlysoedd.

Rwy'n gyfrifol am reoli gweithrediadau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yng Nghymru, ac rwyf wedi edrych ar ystad y llysoedd a thriwlynlysoedd yn erbyn egwyddorion yr ystad fel y nodir yn yr ymgynghoriad cenedlaethol. Rwyf wedi nodi adeiladau lle rwy'n credu bod ein gallu i ddarparu gwasanaeth effeithlon dan fygythiad oherwydd cyfleusterau gwael, lle mae'r defnydd yn isel a lle nad yw'r adeilad yn darparu'r gwerth priodol am arian cyhoeddus sy'n cael ei wario arno.

Rwyf wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig yn ofalus, yn lleol ac ar draws Cymru gyfan. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i'r cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am eu hardal leol i adolygu a'n helpu ni gyda'n cynigion.

Wrth gwrs, byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn effeithio ar staff. Er bydd yr effaith yn gyfyngedig, byddaf yn sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n briodol. Bydd unrhyw drosglwyddiad i drefniadau newydd yn digwydd mewn modd deg a thryloyw, mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur Adrannol.

Rwy'n deall bod y cynigion hyn yn golygu efallai y bydd yn rhaid i rai unigolion deithio'n bellach i'r llysoedd a thriwlynlysoedd. Rwy'n gwerthfawrogi bod heriau penodol wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus mewn rhai ardaloedd gwledig yng Nghymru, er enghraifft, yn Nolgellau a Chaerdybi.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau gwledig i ddarparu ffyrdd eraill i'r cyhoedd gael mynediad at y system gyfiawnder. Gallai'r rhain gynnwys defnyddio adeiladau dinesig neu adeiladau cyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawiadau achlysurol, cyswllt fideo, neu wrandawiadau dros y ffôn neu ar bapur i osgoi teithio yn gyfan gwbl. Mae'n hanfodol ein bod yn deall y galw am ddarpariaethau eraill wrth i ni gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n awyddus i glywed barn y bobl ar y gwahanol ffyrdd yr hoffent ryngweithio gyda'u llysoedd a thriwlynlysoedd, ac yn arbennig gan y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae'n bwysig ein bod yn deall y galw am y dulliau gwahanol hyn wrth i ni gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Diolch i chi am roi ystyriaeth i'r ymgynghoriad hwn.

**Luigi Strinati**

**Cyfarwyddwr Cyflawni  
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM Cymru**

## Rhagymadrodd

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer Cymru yn rhan o ymgynghoriad cenedlaethol ar ddyfodol ystad y llysoedd a thriwilysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ddogfen ymgynghori genedlaethol yn darparu gwybodaeth bwysig ynglŷn â diwygio llysoedd a thriwilysoedd, a'r ffordd yr ydym wedi penderfynu pa adeiladau i ymgynghori yn eu cylch. Hefyd, mae'n cynnwys rhestr lawn o'r llysoedd a thriwilysoedd rydym yn ymgynghori arnynt, a'n cynlluniau eraill i gyfuno llysoedd i mewn i adeiladau sydd eisoes yn bodoli o fewn ardal leol.

### **Dylech sicrhau eich bod yn darllen yr ymgynghoriad cenedlaethol ochr yn ochr â'r ddogfen hon.**

Mae'r ymgynghoriad cenedlaethol yn nodi'r:

- gofyniad i wneud newidiadau i'r ystad;
- lefelau defnydd ar draws yr ystad;
- asesiad o effaith cysylltiedig; a'r
- goblygiadau ar gyfer ardaloedd cyfiawnder lleol a newidiadau rhestru.

Croesawir ymatebion i gwestiynau yn yr ymgynghoriad cenedlaethol yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, ond nid oes angen dyblygu.

### **Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r triwilysoedd yng Nghymru a Lloegr<sup>1</sup>, a'r triwilysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n gweithredu fel partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Triwilysoedd.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ac Uwch Lywydd y Triwilysoedd fanylion rhaglen diwygio'r llysoedd a thriwilysoedd. Bydd hyn yn gwella ystad y llysoedd a thriwilysoedd, gwneud rhagor o ddefnydd o dechnoleg, moderneiddio arferion a phrosesau, ac yn gwella'r gwasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr.

Mae'r defnydd a wneir o dechnoleg a'r egwyddor o fod yn gymesur wrth galon y rhaglen hon. Gellir delio gyda materion trafodaethol syml (megis gweinyddu profiant neu bledio'n euog neu dalu dirwy) drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wneud prosesau mor syml â chyflwyno datganiad treth incwm, neu adnewyddu disg treth car ar-lein. Nid oes angen delio gydag achosion syml wyneb yn wyneb o reidrwydd; bydd barnwyr yn gallu cadw'r gwrandawiaid llys llawn ar gyfer yr achosion mwyaf sensitif a chymhleth. Mae'n bosib

---

<sup>1</sup> Mae rhai Triwilysoedd sy'n rhan o GLITEM yn Lloegr wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru yng Nghymru.



defnyddio technoleg fodern nid yn unig i wneud y system gyfiawnder yn fwy hygyrch, ond hefyd i leihau costau'r system gyfiawnder i gyd drwy gael gwared â'r angen i gludo carcharorion i wrandawiadau mechnïaeth, neu i'r heddlu beidio â gorfod cymryd diwrnodau llawn i ffwrdd o'u gwaith sydd â blaenoriaeth uchel i eistedd mewn ystafell llys.

Cyn gweithredu'r rhaglen ddiwygio yn llawn, rydym yn gofyn am sylwadau ar gau'r llysoedd a thriwlynlysoedd y credwn nad ydynt yn cyd-fynd a'n syniadau o ran y ffordd orau i ddarparu cyfiawnder yn y dyfodol.

### **Mynediad at gyfiawnder**

Rydym yn cydnabod na ddylai'n rhaid i'r cyhoedd orfod teithio'n bell iawn na fynd ar siwrnai anodd i ddod i wrandawiadau llys a thriwlynlys. Rydym yn gwybod hefyd, fodd bynnag, mewn oes sydd yn fwy a mwy digidol, bod y cyhoedd yn disgwyl gallu cysylltu ag unrhyw wasanaeth drwy nifer o sianeli gwahanol, ac mae'n well gan lawer wneud hynny'n ddigidol. Nid oes angen, ac nid ydynt eisiau, bod yn bresennol mewn gwrandawriad eu hunain bob amser. Nid yw darparu mynediad effeithiol at gyfiawnder yn golygu darparu mynediad i adeilad o angenrheidrwydd. Mae hyn yn herio'r dybiaeth bod angen llys neu dtriwlynlys ym mhob ardal leol.

Mae gennym ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at y system gyfiawnder sydd wedi hen sefydlu eisoes. Dyma rai enghreifftiau o hyn: galluogi swyddogion yr heddlu i roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo, prosesau i alluogi dioddefwyr, tystion a diffynydion i fynychu gwrandawiadau drwy gyswllt fideo, a defnyddwyr mewn rhai awdurdodaethau yn cael eu hachosion wedi eu hwyluso neu eu hystyried drwy wrandawiadau ar y ffôn neu ar bapur, sy'n golygu nad oes angen iddynt fynychu eu hunain o gwbl. Os oes angen bod yn bresennol mewn gwrandawriad, gellir defnyddio adeiladau dinesig neu adeiladau cyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawiadau lle mae'r gofynion diogelwch yn isel.

Gallai'r mathau eraill o ddarpariaethau a nodir uchod fod yn ddefnyddiol iawn mewn cymunedau gwledig ac/neu mewn ardaloedd lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, er enghraifft, yn Nolgellau a Chaerdybi. Rydym yn awyddus iawn i glywed barn ynglŷn â darpariaethau amgen, er enghraifft cyswllt fideo mewn adeiladau dinesig neu adeiladau cyhoeddus eraill.

### **Penderfynu ar ba llysoedd i'w cynnwys yn y cynigion.**

Er mwyn cyflawni gweddnewidiad radical o'r system cyfiawnder, rhaid i unrhyw fuddsoddiad gael ei dargedu a'i ddilyn ar draws y tair prif faes allweddol, sef TGCh, ystadau a phrosesau busnes, i greu'r effeithlonrwydd a fydd yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM i foderneiddio ei arferion presennol a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio. Felly, fel y prif flaenoriaeth, rydym yn mynd i'r afael â'r capasiti dros ben presennol o fewn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r ystad sy'n weddill yn fwy hyblyg a synhwyrol, i leihau ein costau rhedeg, canolbwyntio ein buddsoddiadau ar wella'r ystad sydd arnom ei hangen ar gyfer y dyfodol, a chynyddu llysoedd amlswyddogaethol, gan ganiatáu awdurdodaethau gwahanol y llysoedd a thriwlynlysoedd i rannu lleoliadau. Y bwriad yw ail-fuddsoddi arian cyfalaf a geir yn dilyn gwerthu unrhyw asedau dros ben i gyfrannu at ariannu'r rhaglen diwygio.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r busnes yn effeithiol a chwrdd â'n gofynion strategol yn y dyfodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi gosod set o egwyddorion a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

### **Sicrhau Mynediad at Gyfiawnder**

- I sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith posibl cau llysoedd a thriwlynlysoedd ar ddefnyddwyr proffesiynol a defnyddwyr lleyg, wrth ystyried amseroedd teithio i ddefnyddwyr, heriau mynediad mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw weithrediad lliniarol, gan gynnwys cael cyfleusterau mewn canolfannau dinesig lleol ac adeiladau eraill i sicrhau mynediad lleol, TGCh modern a rhestru mwy hyblyg pan fyddai cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio.
- I ystyried anghenion y defnyddwyr, yn arbennig y dioddefwyr, tystion a'r rhai sy'n fregus.
- Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Erllyn y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddluoedd a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru.

### **Cyflawni Gwerth am Arian**

- I leihau costau rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- I wneud y mwyaf o'r arian cyfalaf a geir o'r ystad dros ben er mwyn ail-fuddsoddi yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM.

### **Galluogi effeithlonrwydd yn y tymor hir**

- I leihau'r ddibyniaeth ar adeiladau gyda chyfleusterau gwael a symud o'r adeiladau o fewn yr ystad sy'n anodd neu'n ddud naill ai i wella neu i uwchraddio.
- I symud tuag at ystad gydag adeiladau mwy sy'n hwyluso rhestru busnes y llys a'r triwlynlys yn fwy effeithlon a hyblyg, a hefyd sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr y llys o ran pa bryd fydd eu hachosion yn cael eu gwrandao.
- I gynyddu'r gallu i ddefnyddio'r ystad mewn modd hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol, ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a'r Tribiwnlys.
- I symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawladau un pwrpas, gan edrych am gyfleoedd i grynhoi swyddogaethau swyddfa cefn ble gallant gael eu cyflawni yn fwyaf effeithlon.
- I wella'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system yn gyfan gwbl, gan fanteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd.
- I gynyddu'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad ble bynnag y bo'n bosibl heb ystyried ffiniau gweinyddol presennol.

## **Ymateb i'r ymgynghoriad**

Rydym yn awyddus i gael sylwadau ar y cynigion i newid darpariaeth ystad y llysoedd a thribiwnlysoedd, a sut allwn wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn dal i allu cael mynediad at y system cyfiawnder. Rydym wedi ymrwmo i ystyried pob ymateb. Bydd yr ymatebion yn ein helpu i wneud yn siŵr bod y llysoedd a thribiwnlysoedd yn yr un lle a'r gwaith, a bod cymunedau'n gallu cael mynediad at y system gyfiawnder a bod achosion yn cael eu gwranddo mewn adeiladau gyda chyfleusterau addas.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet. Bydd yn para am 12 wythnos.

Mae'r ymgynghoriad hwn, ac Asesiad o Effaith yr ymgynghoriad ar gael hefyd yn [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

## Y cynigion

Ar ôl ystyried yr ystad yng Nghymru yn erbyn yr egwyddorion a nodir yn y 'Rhagymadrodd', rydym yn argymhell y dylid cau deg adeilad yng Nghymru. Hefyd, rydym yn cynnig y dylid cau Llys Ynadon Prestatyn\*, ond nid yr adeilad ei hun, gyda golwg ar ei ddefnyddio fel canolfan wrandawiadau ar gyfer gwaith Sifil, Teulu a Thriwilysoedd.

Yn ogystal, rydym yn cynnig y dylid cau un awdurdodaeth llys sifil a theulu nad yw'n gysylltiedig ag adeilad llys; a chadarnhau na fydd Llys y Goron yn eistedd mewn dwy ganolfan mwyach, ond i gadw'r adeiladau ar gyfer gwaith sifil, teulu, triwilysoedd ac ynadon. Mae 42 adeilad yn rhan o ystad y llysoedd a thriwilysoedd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân ym mis Mehefin 2014. Cyhoeddwyd bod Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili yn mynd i gau ar 9 Gorffennaf 2015.

Mae hefyd yn cynnwys Llys Sirol y Rhyl. Cyhoeddwyd bod y llys hwn yn mynd i gau yn 2010 fel rhan o Raglen Diwygio Ystad y Llysoedd. Pe bai'r cynnig i gau Llys Ynadon Prestatyn yn mynd yn ei flaen, byddai'r gwaith yn cael ei symud i Llys Ynadon Llandudno, a byddai adeilad Llys Ynadon Prestatyn yn cael ei gadw fel canolfan gwaith sifil, teulu a thriwilysoedd i ganiatáu trosglwyddo gwaith o'r Rhyl a chau'r adeilad hwnnw.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cau'r 11 llys a thriwilysoedd canlynol<sup>2</sup>:

- Llysoedd Barn Aberhonddu
- Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Triwilysoedd a Phroffiant
- Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)
- Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau
- Llys Ynadon Caerdybi
- Llys Sifil a Theulu Llangefni
- Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot
- Llys Ynadon Pontypridd
- Llys Ynadon Prestatyn\*

---

<sup>2</sup> Mae'r cyfeiriadau a wneir at lysoedd ynadon, llysoedd sirol, llysoedd y goron a llysoedd cyfun yn y ddogfen hon yn golygu yr adeiladau (adeilad unigol sy'n darparu ystafelloedd gwrandawiadau ar gyfer achosion troseddol, sifil, teulu a thriwilysoedd) lle cynhelir y weithgaredd hwnnw mewn lleoliad penodol. Yn fanwl gywir, mae deddfwriaeth yn nodi bod un llys y goron, un llys sirol ac un llys teulu.

- Canolfan Wrandawiadau a Thriwlynlys Wrecsam (Rhyd Broughton)

Hefyd, mae dau gyfuniad a nodir isod.

### **Amseroedd teithio**

Fel rhan o'n gwaith i asesu effaith y cynigion hyn ar y cyhoedd, rydym wedi cynnwys gwybodaeth am y pellter ar y ffordd rhwng y llysoedd a gynigir ar gyfer eu cau, a'r llys lle byddai'r mwyafrif o'r gwaith yn trosglwyddo. Hefyd, darperir manylion costau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac amseroedd teithio fel canllaw yn unig, ac mae'n bosib y gallant newid. Nid yw'r wybodaeth hon yn esbonio'r effaith bosibl ar amseroedd teithio i'r cyhoedd yn nalgylch y llys. Rydym wedi datblygu model i ddadansoddi hyn.

Mae'r model yn dadansoddi dalgylch gyfredol y llys a'r boblogaeth yn yr ardal honno, wedi'i gyfrifo i'r ardal ddaearyddol leiaf sydd ar gael gyda'r ystadegau cenedlaethol presennol (a elwir yn Ardal Ehangach Haen Is neu LSOA). Yna, mae'r model yn cyfrifo'r amser teithio o ganol pob LSOA i'r llys presennol mewn car a gyda thrafnidiaeth gyhoeddus ar wahân, ac yna'n cyfrifo'r gyfran o'r boblogaeth allai deithio i'r llys yn yr amseroedd penodol hyn. Wedyn, mae'r model yn cyfrifo'r amseroedd teithio newydd ar sail lleoliad y llys lle byddai'r mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wrando pe bai'r llys yn cau. Mae'r amseroedd teithio hyn i'w gweld mewn fformat tabl o fewn y cynigion ar bob safle.

Oherwydd natur ardaloedd gwledig yng Nghymru, rydym a byddwn yn parhau i fod yn hyblyg pan fydd pobl yn cael anhawster i fynychu llys neu driwlynlys ar amser penodol oherwydd argaeledd trafnidiaeth. Bydd ceisiadau fel hyn yn cael eu hystyried drwy gynrychiolaethau a wneir ar sail pob achos unigol.

Mae'r cynigion yn y papur hwn hefyd yn cynnwys na fyddai Llys y Goron yn eistedd yn y ddau safle canlynol mwyach, a byddai'r adeiladau'n cael eu cadw ar gyfer gwaith sifil, teulu, triwlynlys ac ynadon:

- Llys y Goron yn Hwlfordd
- Llys y Goron yn y Trallwng

Hefyd, rydym yn bwriadu cau awdurdodaeth y Llys Sirol yn Llys Sifil a Theulu Conwy a Cholwyn. Mesur gweinyddol yw hwn oherwydd nid yw'r Llys Sirol wedi eistedd yma ers nifer o flynyddoedd. Gweinyddir yr awdurdodaeth gan Llys Sirol y Rhyl, a chynhelir y gwrandawiadau yn Llys Ynadon Llandudno.

### **Cyfuno**

I roi trosolwg i'r defnyddwyr o bob newid arfaethedig i'r ystad, mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ble'r ydym yn bwriadu cyfuno llysoedd o fewn yr un dref neu ddinas. Rhoddir gwybod i randdeiliaid lleol ynglŷn â'r newidiadau hyn pan fyddant yn digwydd.

Cyfuniad yw pan mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn symud gwaith i ganiatáu awdurdodaethau i weithredu mewn llai o safleoedd o fewn ardal leol. Mae hyn yn caniatáu cau adeilad neu adeiladau tra'n cadw awdurdodaethau lleol, gydag effaith gyfyngedig ar ddarparu gwasanaethau. Rheolir cyfuniadau gan arweinwyr gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM fel rhan o redeg y busnes yn y modd arferol. Mae'r rhain wedi cael eu hadnabod drwy ddefnyddio'r egwyddorion a nodir yn y 'Rhagymadrodd'. Dylid ystyried y cynigion ar gyfer cau yn y rhanbarth yng nghyd-destun y cyfuniadau hyn.

Yn ychwanegol i'r cynigion i gau llysoedd a thriwilysoedd yn yr ymgynghoriad hwn, bydd y cyfuniadau canlynol yn digwydd yng Nghymru:

### **Cyfuno Llys Sifil a Theulu Caernarfon o fewn Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon**

O ganlyniad i'r cyfuniad hwn, byddai Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon yn dod yn adeilad llys mawr, modern, aml-awdurdodaeth. Bydd agoswydd y safle i'r Llys Sifil a Theulu a nifer yr ystafelloedd llys (bydd pedair ystafell ychwanegol yn cael eu hadeiladu er mwyn gallu symud) yn gwneud y Canolfan Cyfiawnder yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith a symudir o'r Llys Sifil a Theulu.

### **Cyfuno Llys y Goron yn Abertawe (Neuadd y Ddinas) o fewn Llys y Goron yn Abertawe (San Helen)**

Y cynnig yw rhoi'r gorau i eistedd Llys y Goron yn Neuadd y Ddinas, a symud y gwrandawiadau i brif adeilad Llys y Goron yn Heol San Helen, Abertawe, sydd wedi'i leoli dros y ffordd i safle Neuadd y Ddinas, ac mae'n darparu pedair ystafell wrandawiadau mawr ac ystod dda o gyfleusterau i ddefnyddwyr.

Hefyd, rydym yn cydnabod bod angen dod o hyd i ddatrysiad hirdymor yng Nghaerdydd, lle mae pum adeilad llys a thriwilysoedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn parhau i adolygu'r ystad i asesu'r ffordd orau o gwrdd ag anghenion y cyhoedd yn yr ardal hon.

Bydd copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at randdeiliaid yn y lleoliadau yr effeithir arnynt, a bydd ar gael ar wefan justice hefyd yn [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj).

## **Llysoedd Barn Aberhonddu**

### **Y cynnig**

Mae Llysoedd Barn Aberhonddu yn un o dri llys ynadon a llys sifil a theulu cyfun yn sir Powys, ac mae'n darparu gwasanaethau llys ynadon ar gyfer Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae Canolfan Cyfiawnder Llandrindod hefyd yn rhan o Ardal Cyfiawnder Lleol Brycheiniog a Sir Faesyfed. Y Trallwng yw'r llys cyfun arall sy'n gwasanaethu Ardal Cyfiawnder Lleol Sir Drefaldwyn.

Mae Llysoedd Barn Aberhonddu yn gweithredu fel llys dibynnol, neu leoliad gwrandawiadau ar gyfer gwaith a brosesir yng Nghanolfan Llysoedd Cyfun Merthyr Tudful. Mae'n delio gydag amrediad llawn o waith troseddol y llys ynadon, ac eithrio gwrandawiadau terfynol mewn achosion amldrac a gwaith ysgariad diwrthwynebiad, ac mae'n delio gydag amrediad llawn o waith sifil a gwaith teulu.

Y cynnig yw cau Llysoedd Barn Aberhonddu a throsglwyddo'r gwrandawiadau troseddol i Lysoedd Barn Llandrindod a Llys Cyfun Merthyr Tudful, a Llys Ynadon Abertawe ar gyfer defnyddwyr sy'n byw yn ardal Ystradgynlais. Bydd y gwrandawiadau sifil, teulu a thriwlynlysoedd yn cael eu trosglwyddo i Lys Cyfun Merthyr Tudful. Ni fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi er mwyn symud y gwaith yno.

Petai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai'r Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i ystyried yr angen i uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

### **Adeilad**

Agorwyd adeilad presennol Llysoedd Barn Aberhonddu ym 1994, a chafodd ei ailwampio yn 2004 i ddarparu rhagor o le ar gyfer cynnal gwrandawiadau llys ynadon a symudwyd o adeilad blaenorol Llys Ynadon Aberhonddu.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad o safon dda ac mae'n darparu dwy ystafell llys ynadon, un ystafell llys sirol, chwe chell ddiogel, dociau diogel (yn Llys Un a Llys Dau) a dwy ystafell cyswllt fideo. Mae saith ystafell ymgynghori yn yr adeilad. Mae man aros y cyhoedd yn rhy fach i wahanu dioddefwyr, y cyhuddedig a'r tystion yn briodol. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol, gan gynnwys gwella system awyru'r adeilad, trwsio'r systemau trydanol a gosod to fflat newydd.

Mae Canolfan Cyfiawnder Llandrindod yn gyfleuster llys a thriwlynlys modern a phwrpasol. Agorwyd y Canolfan Cyfiawnder yn 2012 ac mae'n ffurfio rhan o hyb dinesig yn Llandrindod oherwydd ei fod wedi'i leoli'n agos i'r Orsaf Heddlu a'r Orsaf Dân. Mae un ystafell llys yno, gyda doc diogel ac ystafelloedd ymgynghori.

Mae Llys Cyfun Merthyr Tudful yn adeilad llys aml-awdurdodaeth mawr, ond mae'n cael ei danddefnyddio. Ceir yno wyth ystafell llys; pump ar gyfer gwaith troseddol a thri ar gyfer gwaith sifil, teulu a thriwlynlysoedd (bydd un ystafell arall heb ddalfa yn cael ei chreu i gymryd y gwaith o Lys Ynadon Pontypridd). Mae Llys Ynadon Abertawe yn adeilad llys mawr a modern gyda saith ystafell llys. Mae amrediad llawn o gyfleusterau yno ar gyfer defnyddwyr y llys. Mae'r capasiti yn y llys i gynnal rhagor o wrandawiadau a bydd symud gwaith i'r swyddfa hon yn cynyddu'r defnydd a wneir o'r adeilad (sef yr amser a ddefnyddir ar gyfer cynnal gwrandawiadau yn erbyn capasiti yr ystafelloedd llys)

## Llwyth gwaith

Dim ond un diwrnod yr wythnos mae'r llys sirol yn eistedd yn Llysoedd Barn Aberhonddu, a chynhelir gwrandawiadau llys ynadon dri diwrnod yr wythnos ar y mwyaf.

Tua 16% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

## Lleoliad

Mae Aberhonddu 29 milltir i ffwrdd o Landrindod, 19 milltir i ffwrdd o Ferthyr Tudful a 25 milltir i ffwrdd o Ystradgynlais. Mae Ystradgynlais 15 milltir i ffwrdd o Abertawe. Nid oes unrhyw gysylltiadau rheilffordd ymarferol rhwng unrhyw un o'r llysoedd a nodir (mae'r daith o Ferthyr i Landrindod ar drên trwy Gaerdydd yn cymryd rhwng pedair a phum awr un ffordd).

Ar ddyddiau'r wythnos, mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Aberhonddu, Merthyr Tudful a Llandrindod (gwasanaeth bws T4) a rhwng Ystradgynlais ac Abertawe (gwasanaeth NAT X63/64).

Mae taith ar fws o Aberhonddu i Ferthyr Tudful yn cymryd oddeutu 35 munud ac mae tocyn dwyffordd yn costio £5.30. Mae taith ar fws o Ystradgynlais i Abertawe yn cymryd oddeutu 1 awr 20 munud ac mae'n costio £6.40. Mae taith ar fws o Aberhonddu i Landrindod yn cymryd oddeutu 1 awr ac mae'n costio £7.50.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Llwyth gwaith ynadon:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	61%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	9%
	<b>30-60mun</b>	39%		<b>30-60mun</b>	91%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	20%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	9%
	<b>30-60mun</b>	29%		<b>30-60mun</b>	25%
	<b>60-120mun</b>	9%		<b>60-120mun</b>	14%
	<b>&gt;120 mun</b>	4%		<b>&gt;120 mun</b>	15%
	<b>dim data</b>	37%		<b>dim data</b>	37%



Llwyth Gwaith Sifil:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	43%	Mewn car	0-30mun	29%
	30-60mun	45%		30-60mun	71%
	60-120mun	12%		60-120mun	0%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	12%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	14%
	30-60mun	20%		30-60mun	19%
	60-120mun	23%		60-120mun	8%
	>120 mun	6%		>120 mun	20%
	dim data	39%		dim data	39%

Llwyth Gwaith Llys Teulu:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	71%	Mewn car	0-30mun	0%
	30-60mun	29%		30-60mun	100%
	60-120mun	0%		60-120mun	0%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	20%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	0%
	30-60mun	33%		30-60mun	24%
	60-120mun	7%		60-120mun	14%
	>120 mun	4%		>120 mun	26%
	dim data	36%		dim data	36%

**Goblygiadau i staff**

Mae un aelod o staff wedi'i leoli yn Llysoedd Barn Aberhonddu.

**Gwybodaeth arall**

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £164,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llysoedd Barn Aberhonddu.

## **Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr**

### **Y cynnig**

Mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn llys sirol, llys teulu, triwlynlys a llys ynadon cyfun wedi ei leoli ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn delio gydag amrediad llawn o waith troseddol y llys ynadon. Gan eithrio gwrandawriadau terfynol mewn achosion amldrac a gwaith ysgariad diwrthwynebiad, mae'n delio gydag amrediad llawn o waith sifil a gwaith teulu.

Cynigir y dylid cau Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr a bod y gwaith sifil, teulu a thriwlynlysoedd yn cael ei drosglwyddo i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot, a'r gwaith troseddol yn cael ei drosglwyddo i Lys Ynadon Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhain yn adeiladau mwy, ac yn fwy modern, sy'n cynnig hyblygrwydd a chyfleusterau da i ddefnyddwyr. Ni fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi er mwyn symud y gwaith yno.

Petai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai'r Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i ystyried yr angen i uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

### **Adeilad**

Agorwyd adeilad presennol Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn 1970 a gafodd ei ailwampio yn 2014. Gosodwyd llawr newydd, to newydd, rhwystr maes parcio newydd a boeler newydd fel rhan o'r gwaith ailwampio. Roedd y gwaith hwn yn angenrheidiol er mwyn cadw'r adeilad mewn cyflwr diogel ar gyfer staff a defnyddwyr ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion diogelwch. Fodd bynnag, petai'r llys yn parhau ar agor bydd angen cyflawni gwaith cynnal a chadw yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cyflawni adolygiad strwythurol o'r adeilad.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad o safon dda ac yn ychwanegol i'r pum ystafell llys ceir wyth cell ddiogel, dau ddoc diogel ac ystafell gyswllt fideo. Mae 12 ystafell gyfsweld.

Adeiladwyd Canolfan Cyfiawnder Port Talbot yn 2011 ac mae'n adeilad llys a thriwlynlys modern sydd â chyfleusterau da i ddefnyddwyr y llys. Mae'r Ganolfan Cyfiawnder yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr hyblygrwydd o ran y defnydd a gynigir gan y pum ystafell llys yng Nghanolfan Cyfiawnder Port Talbot yn gwneud y Ganolfan Cyfiawnder yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith sifil, teulu a thriwlynlys o Lysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro yn adeilad llys mawr a modern. Mae'r hyblygrwydd o ran y defnydd a gynigir gan y deuddeg ystafell llys a chyfleusterau modern yn gwneud Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith troseddol o Lysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr.

### **Llwyth gwaith**

Tua 50% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae Pen-y-bont ar Ogwr 16 milltir i ffwrdd o Bort Talbot ac 20 milltir i ffwrdd o Gaerdydd.

Mae gwasanaeth trên rheolaidd ac aml o Ben-y-bont ar Ogwr i Bort Talbot a Chaerdydd. Mae taith ar drên o Ben-y-bont ar Ogwr i Bort Talbot yn cymryd oddeutu 15 munud a chost tocyn dwyffordd yw £4.70. Mae taith ar drên o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd yn cymryd oddeutu 25 munud a chost tocyn dwyffordd yw £6.90.

Ar ddyddiau o'r wythnos mae gwasanaeth bws rheolaidd hefyd rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Phort Talbot (gwasanaeth First X1). Mae taith ar fws o Ben-y-bont ar Ogwr i Bort Talbot yn cymryd oddeutu 1 awr a chost tocyn dwyffordd yw £6.90.

Ar ddyddiau o'r wythnos mae gwasanaeth bws rheolaidd ac aml rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd (gwasanaeth First X2). Mae taith ar fws o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd yn cymryd oddeutu 1 awr 10 munud a chost tocyn dwyffordd yw £6.90.

Mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da rhwng y canolfannau sydd â phoblogaeth uchel yn yr ardal ddaearyddol y mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn ei gwasanaethu.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Llwyth gwaith ynadon:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	98%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	81%
	<b>30-60mun</b>	2%		<b>30-60mun</b>	19%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	38%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	9%
	<b>30-60mun</b>	59%		<b>30-60mun</b>	56%
	<b>60-120mun</b>	2%		<b>60-120mun</b>	34%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	1%		<b>dim data</b>	1%

Llwyth Gwaith Sifil:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	98%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	80%
	<b>30-60mun</b>	2%		<b>30-60mun</b>	20%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	41%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	8%
	<b>30-60mun</b>	56%		<b>30-60mun</b>	59%
	<b>60-120mun</b>	2%		<b>60-120mun</b>	32%

	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	1%		dim data	1%

Llwyth Gwaith Llys Teulu:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	94%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	79%
	<b>30-60mun</b>	6%		<b>30-60mun</b>	21%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	37%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	9%
	<b>30-60mun</b>	58%		<b>30-60mun</b>	55%
	<b>60-120mun</b>	4%		<b>60-120mun</b>	35%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	2%		<b>dim data</b>	2%

### Goblygiadau i staff

Mae 28 aelod o staff wedi eu lleoli yn Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr.

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £347,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr.

## **Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant**

### **Y cynnig**

Mae Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant (Hill House) yn un o dri llys yn sir Gaerfyrddin. Mae dau adeilad llys yn nhref Caerfyrddin – delir â gwaith y llys sifil, llys teulu a thriwilysoedd yn Hill House ynghyd â'r is-gofrestrfa profiant, a delir â gwaith Llys y Goron, llys ynadon a'r llys teulu yn Neuadd y Sir.

Mae'r ganolfan wrandawiadau yn delio gydag amrediad llawn o waith sifil, teulu, triwilysoedd a phrofiant gan eithrio gwaith ysgariad diwrthwynebiad a gwrandawiadau terfynol mewn achosion aml-drac.

Cynigir bod Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn cau a bod y gwaith yn cael ei drosglwyddo i Lys Sifil a Llys Teulu Llanelli, Llysoedd Barn Hwlfordd a Chanolfan Cyfiawnder Aberystwyth. Ni fyddai angen cyflawni gwaith galluogi i symud y gwaith.

### **Adeilad**

Adeiladwyd Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn 2012. Mae'r adeilad mewn cyflwr da ac mae ganddo un ystafell llys, ystafelloedd ymgynghori a manau aros sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Llys Sifil a Llys Teulu Llanelli yn adeilad llys aml awdurdodaeth, sydd o faint canolig ac wedi ei ailwampio yn ddiweddar ac yn cynnwys pum ystafell llys. Ni wneir defnydd digonol o adeilad y llys ar hyn o bryd; byddai symud gwaith o Gaerfyrddin i Lanelli yn galluogi'r llys hwnnw gael ei ddefnyddio yn well a bydd felly yn darparu gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

Mae'r llys yn yr Hwlfordd yn llys sifil, llys teulu, triwilysoedd a llys ynadon modern sydd â phum ystafell llys. Mae ganddo'r capasiti i gymryd y gwaith o Gaerfyrddin heb orfod cyflawni unrhyw waith galluogi.

Mae'r Ganolfan Cyfiawnder yn Aberystwyth yn ganolfan llys newydd ac aml awdurdodaeth sydd â phedair ystafell llys. Ni wneir defnydd digonol o'r ganolfan ar hyn o bryd, ac mae'r capasiti yno i gynnal gwrandawiadau a gwaith o Gaerfyrddin heb orfod cyflawni unrhyw waith galluogi.

### **Llwyth gwaith**

Tua 51% o'r capasiti oedd cyfradd defnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae Caerfyrddin 17 milltir i ffwrdd o Lanelli.

Mae gwasanaeth trên rheolaidd o Gaerfyrddin i Lanelli. Mae taith ar drên o Gaerfyrddin i Lanelli yn cymryd oddeutu 30 munud a chost tocyn dwyffordd yw £9.20.

Ar ddyddiau o'r wythnos mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Caerfyrddin a Llanelli (gwasanaeth First 197). Mae taith ar fws o Gaerfyrddin i Lanelli yn cymryd oddeutu 50 munud a chost tocyn dwyffordd yw £6.70.

Mae Caerfyrddin 30 milltir i ffwrdd o Hwlfordd.

Mae gwasanaeth trên rheolaidd ond anaml o Gaerfyrddin i Hwlfordd. Mae taith ar drên o Gaerfyrddin i Hwlfordd yn cymryd oddeutu 40 munud a chost tocyn dwyffordd yw £16.60.

Mae gwasanaeth bws rheolaidd ond anaml (gwasanaeth Silcox Coaches 322) o Gaerfyrddin i Hwlfordd a chost tocyn dwyffordd yw £7.50.

Mae Caerfyrddin 50 milltir i ffwrdd o Aberystwyth.

Nid oes cysylltiad trên ymarferol rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Mae cysylltiadau gwasanaeth bws rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Mae taith ar ddau fws yn angenrheidiol (gan ddefnyddio gwasanaeth T1) ac mae cyfanswm amser teithio un ffordd oddeutu 1 awr a 30 munud.

Mae Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn gwasanaethu ardal ddaearyddol wledig. Mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus yn dda ac mae gwasanaeth bws lleol rheolaidd yn cysylltu Caerfyrddin i ganolfannau poblogaeth leol. Mae rhwydwaith rheilffordd yn cysylltu Caerfyrddin gyda Llanelli ac Abertawe.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	52%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	5%
	<b>30-60mun</b>	48%		<b>30-60mun</b>	50%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	45%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	19%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	0%
	<b>30-60mun</b>	24%		<b>30-60mun</b>	7%
	<b>60-120mun</b>	16%		<b>60-120mun</b>	43%
	<b>&gt;120 mun</b>	13%		<b>&gt;120 mun</b>	17%
	<b>dim data</b>	28%		<b>dim data</b>	33%

### Goblygiadau i staff

Mae wyth aelod o staff wedi eu lleoli yng Nghanolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant

**Gwybodaeth arall**

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £18,000.

Adeilad ar brydles yw'r adeilad hwn.

## **Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)**

### **Y cynnig**

Mae Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir) yn un o dri llys yn sir Gaerfyrddin. Mae dau adeilad llys yn nhref Caerfyrddin – delir â gwaith Llys y Goron, llys ynadon a'r llys teulu yn Neuadd y Sir, a delir â gwaith y llys sifil a llys teulu, triwlynys a is-gofrestrfa profiant yn yr ail safle, sef Hill House.

Mae'r Llysoedd Barn yn delio gyda gwaith Llys y Goron a llys ynadon. Mae'r llys yn gweithredu fel llys dibynnol a chanolfan wrandawiadau i Lys y Goron.

Cynigir y dylid cau Llysoedd Barn Caerfyrddin a bod gwaith Llys y Goron yn cael ei drosglwyddo i Lys y Goron Abertawe. Ni fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi er mwyn symud y gwaith yno. Mae Caerfyrddin yn gweithredu fel canolfan wrandawiadau ddibynnol ar gyfer gwrandawiadau llys ynadon o Lanelli, a chynigir y dylid trosglwyddo'r gwrandawiadau hyn i Lanelli.

### **Adeilad**

Adeiladwyd Neuadd y Sir yn 1777. Ar y cyfan, mae'r adeilad o safon dda ac mae tair ystafell llys ac un ystafell ymgynghori yno.

Cyflawnwyd gwaith ailwampio ar yr adeilad yn 2010/11. Er bod yr adeilad mewn cyflwr strwythurol da, nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, ac nid yw cynllun yr adeilad yn bodloni anghenion busnes modern. Nid oes digon o le i wahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion, nid oes modd gwahanu'r farnwriaeth a'r rheithwyr, ac mae'r cyfleusterau yn wael ar gyfer tystion a dioddefwyr. Gan nad oes doc modern ar gyfer cerbyd ar y safle, mae carcharorion yn cael eu hebrwng i'r adeilad ar y palmant cyhoeddus sydd y tu allan i'r adeilad.

Byddai angen cyflawni gwaith cynnal a chadw petai'r llys yn aros ar agor. Byddai'r gwaith angenrheidiol yn cynnwys gwaith i atal dŵr rhag dod i mewn i un ystafell llys, a gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid nodi, oherwydd bod Neuadd y Sir yn adeilad rhestredig Gradd II, byddai angen caniatâd adeiladau rhestredig cyn gellir cyflawni unrhyw waith adeileddol angenrheidiol (sydd ei angen i wneud yr adeilad yn fwy modern).

Mae Llysoedd Barn Llanelli yn adeilad llys aml awdurdodaeth, sydd o faint canolig ac wedi ei ailwampio yn ddiweddar. Mae gan y llys bum ystafell llys ac ni wneir defnydd digonol ohono; byddai symud gwaith o Gaerfyrddin i Lanelli yn galluogi gwneud rhagor o ddefnydd o'r llys hwn.

Mae Llys y Goron Abertawe yn Llys y Goron mawr sydd â phedair ystafell llys aml ddefnydd. Ni wneir defnydd digonol o'r ddau lys; bydd symud gwaith Llys y Goron Caerfyrddin i Abertawe yn sicrhau bod Llys y Goron Abertawe yn cael ei ddefnyddio yn well.

### **Llwyth gwaith**

Tua 11% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.



## Lleoliad

Mae Caerfyrddin 27 milltir i ffwrdd o Abertawe.

Mae gwasanaeth trên rheolaidd o Gaerfyrddin i Abertawe. Mae taith ar drên o Gaerfyrddin i Abertawe yn cymryd 50 munud a chost tocyn dwyffordd yw £9.80.

Ar ddyddiau o'r wythnos mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Caerfyrddin ac Abertawe (gwasanaeth First X11 o Lanelli i Abertawe). Mae taith bws o Gaerfyrddin i Abertawe yn cymryd 1 awr 35 munud ac yn cynnwys taith ar ddau fws, gan newid bws yn Llanelli. Tocyn diwrnod yw'r gwerth gorau ar gyfer taith fel hyn ac mae'n costio £7.00.

Mae Llysoedd Barn Caerfyrddin yn gwasanaethu ardal ddaearyddol wledig. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn dda ac mae gwasanaeth bws lleol rheolaidd yn cysylltu Caerfyrddin i ganolfannau poblogaeth leol. Mae rhwydwaith rheilffordd yn cysylltu Caerfyrddin ag Abertawe.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Llwyth gwaith Llys y Goron:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	27%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	39%
	<b>30-60mun</b>	45%		<b>30-60mun</b>	33%
	<b>60-120mun</b>	28%		<b>60-120mun</b>	20%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	8%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	7%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	10%
	<b>30-60mun</b>	18%		<b>30-60mun</b>	21%
	<b>60-120mun</b>	40%		<b>60-120mun</b>	30%
	<b>&gt;120 mun</b>	18%		<b>&gt;120 mun</b>	11%
	<b>dim data</b>	17%		<b>dim data</b>	27%

Llwyth gwaith ynadon:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	44%	Mewn car	0-30mun	4%
	30-60mun	53%		30-60mun	53%
	60-120mun	2%		60-120mun	43%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	17%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	0%
	30-60mun	21%		30-60mun	6%
	60-120mun	25%		60-120mun	40%
	>120 mun	13%		>120 mun	20%
	dim data	25%		dim data	34%

Llwyth Gwaith Llys Teulu:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	24%	Mewn car	0-30mun	40%
	30-60mun	54%		30-60mun	44%
	60-120mun	22%		60-120mun	16%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	9%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	7%
	30-60mun	17%		30-60mun	25%
	60-120mun	41%		60-120mun	39%
	>120 mun	15%		>120 mun	9%
	dim data	19%		dim data	21%

### Goblygiadau i staff

Nid oes staff wedi'u lleoli yn Llysoedd Barn Caerfyrddin.

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £160,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Neuadd y Sir.

## **Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau**

### **Y cynnig**

Mae Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yn un o dri adeilad llys yn sir Gwynedd.

Mae'r llys ynadon yn delio ag amrediad llawn o waith llys troseddol. Llys dibynnol yw hwn, neu mae'n lleoliad ar gyfer gwrandawiadau Llys Ynadon Caernarfon i waith llys ynadon, ac ar gyfer Llys y Goron Caernarfon i waith Llys y Goron. Er bod y llys wedi ei ddynodi yn ffurfiol fel Llys y Goron, nid yw'r Llys y Goron wedi eistedd yn Nolgellau ers cyn 2007.

Cynigir y dylid cau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau a throsglwyddo'r gwrandawiadau i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Ni fydd angen gwneud gwaith galluogi yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon er mwyn symud y gwaith yno. Rhoddir ystyriaeth bellach i ail-leoli gwaith sy'n deillio o ardal sydd i'r de o ddalgylch Dolgellau i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

Rydym yn deall y gallai'r cynigion hyn olygu y bydd yn rhaid i rai defnyddwyr deithio'n bellach i'r llysoedd a thribiwnlysoedd. Rydym yn ymwybodol y bydd gan rhai unigolion o gymunedau gwledig farn ar y dulliau eraill y gallwn eu darparu er mwyn caniatáu i'r cyhoedd barhau i gael mynediad at y system gyfiawnder. Rydym yn awyddus i ddeall beth yw'r galw posibl ar gyfer y dulliau eraill hyn, megis defnyddio adeiladau dinesig neu gyhoeddus, i wneud yn siŵr bod unrhyw ddarpariaethau a sefydlir ar ôl cau llys neu dribiwnlys yn y lleoliad cywir a chyda chyfleusterau addas. Byddai darpariaeth arall fel hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn achos y llys hwn.

Oherwydd natur ardaloedd gwledig yng Nghymru, rydym a byddwn yn parhau i fod yn hyblyg pan fydd pobl yn cael anhawster i fynychu llys neu dribiwnlys ar amser penodol oherwydd argaeledd trafniadaeth. Bydd ceisiadau fel hyn yn cael eu hystyried drwy gynrychiolaethau a wneir ar sail pob achos unigol.

### **Adeilad**

Adeiladwyd adeilad presennol Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yn 1825.

Yn gyffredinol, nid yw'r adeilad o safon foddhaol ar gyfer cynnal busnes modern, ac mae yno un ystafell llys, ystafelloedd ymgynghori cyfyngedig a man aros bychan. Nid oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion a chan nad oes doc modern ar gyfer cerbyd ar y safle, mae carcharorion yn cael eu hebrwng i'r adeilad ar y palmant cyhoeddus sydd y tu allan i'r adeilad.

Petai'r llys yn aros ar agor bydd angen cyflawni gwaith cynnal a chadw a fyddai'n cynnwys toiledau newydd, darparu system rheoli mynediad newydd, rhannau newydd i system larwm tân a larwm argyfwng yr adeilad, diweddarau'r system CCTV a gwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid nodi, oherwydd bod adeilad y llys yn adeilad rhestredig Gradd II, byddai angen caniatâd adeiladau rhestredig cyn gellir cyflawni unrhyw waith adeileddol angenrheidiol (sydd ei angen i wneud yr adeilad yn fwy modern).

Bydd Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon yn dod yn adeilad llys mawr, modern, aml-awdurdodaeth. Bydd nifer yr ystafelloedd llys (bydd pedair ystafell ychwanegol yn

cael eu hadeiladu er mwyn gallu symud Llys Sifil a Theulu Caernarfon) a'r capasiti sydd ar gael yno yn gwneud y Ganolfan Cyfiawnder yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith a symudir o Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau.

Mae Canolfan Cyfiawnder Aberystwyth yn adeilad llys newydd sydd â chyfleusterau da. Byddai cynllun yn y dyfodol i ystyried symud gwrandawiadau yma ar gyfer y partion hynny sydd yn byw i'r de o Ddolgellau, yn sicrhau y byddai defnydd digonol yn cael ei wneud o'r adeilad ac yn lleihau amser teithio ar gyfer y defnyddwyr hynny.

### Llwyth gwaith

Tua 14% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

### Lleoliad

Mae Dolgellau 43 milltir i ffwrdd o Gaernarfon. Mae gwasanaeth bws rheolaidd (gwasanaeth T2 Express Motors) yn mynd o Ddolgellau i Gaernarfon, ond nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn aml. Mae bws yn teithio'r ffordd hon ond mae'n amrywio o unwaith bob dwy awr i unwaith bob pedair awr, ac mae'r daith yn cymryd oddeutu dwy awr. Yn ddiabynnol ar adeg y diwrnod y gwneir y daith, weithiau mae angen newid bws i gyrraedd pen y daith. Pris tocyn dwyffordd o Ddolgellau i Gaernarfon yw £6.00. Nid oes modd teithio o Ddolgellau i Gaernarfon ar drên.

Mae Dolgellau 34 milltir i ffwrdd o Aberystwyth, mae'r daith mewn car yn cymryd 1 awr. Mae gwasanaeth bws rheolaidd (Lloyds Coaches X28 neu Express Motors T2) yn mynd o Ddolgellau i Aberystwyth. Mae'r daith yn cymryd oddeutu 1 awr 15 munud a chost tocyn dwyffordd yw £6.00.

Y rhwydwaith drên sy'n lleol i Ddolgellau yw Abermaw. Fodd bynnag, nid yw'r trenau yn mynd yn aml ac mae taith ar drên o Abermaw i Aberystwyth yn cymryd tair awr.

Mae Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yn gwasanaethu ardal ddaearyddol sydd yn wledig.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	19%	Mewn car	0-30mun	0%
	30-60mun	54%		30-60mun	15%
	60-120mun	27%		60-120mun	39%
	>120 mun	0%		>120 mun	46%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	7%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	0%
	30-60mun	27%		30-60mun	0%
	60-120mun	44%		60-120mun	14%
	>120 mun	3%		>120 mun	19%
	dim data	19%		dim data	67%

### **Goblygiadau i staff**

Nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau.

### **Gwybodaeth arall**

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £56,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau.

## **Llys Ynadon Caergybi**

### **Y cynnig**

Mae Llys Ynadon Caergybi yn un o ddau lys sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn. Mae'r llys yn darparu amrediad llawn o wasanaethau llys ynadon.

Cynigir y dylid cau Llys Ynadon Caergybi a throsglwyddo'r gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Ni fydd angen gwneud gwaith galluogi yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon er mwyn symud y gwaith yno.

Yn gyffredinol, mae'r adeilad mewn safon wael ac nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n debygol y byddai cost y gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal adeiladwaith y llys a gwella'r cyfleusterau yn debygol o fod yn werth gwael am arian i'r trethdalwr o ystyried y defnydd cyfyngedig a wneir o'r llys ar hyn o bryd.

Rydym yn deall y gallai'r cynigion hyn olygu y bydd yn rhaid i rai defnyddwyr deithio'n bellach i'r llysoedd a thribiwnlysoedd. Rydym yn ymwybodol y bydd gan rhai unigolion o gymunedau gwledig farn ar y dulliau eraill y gallwn eu darparu er mwyn caniatáu i'r cyhoedd barhau i gael mynediad at y system gyfiawnder. Rydym yn awyddus i ddeall beth yw'r galw posibl ar gyfer y dulliau eraill hyn, megis defnyddio adeiladau dinesig neu gyhoeddus, i wneud yn siŵr bod unrhyw ddarpariaethau a sefydlir ar ôl cau llys neu dribiwnlys yn y lleoliad cywir a chyda chyfleusterau addas. Byddai darpariaeth arall fel hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn achos y llys hwn.

Oherwydd natur ardaloedd gwledig yng Nghymru, rydym a byddwn yn parhau i fod yn hyblyg pan fydd pobl yn cael anhawster i fynychu llys neu dribiwnlys ar amser penodol oherwydd argaeledd trafnidiaeth. Bydd ceisiadau fel hyn yn cael eu hystyried drwy gynrychiolaethau a wneir ar sail pob achos unigol.

Petai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai'r Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i ystyried yr angen i uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

### **Adeilad**

Mae dwy ystafell llys yn Llys Ynadon Caergybi, a cheir ystafell gyswllt fideo ac ystafelloedd ymgynghori cyfyngedig yno hefyd. Fodd bynnag, mae'r adeilad yn wael ar y cyfan. Nid oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion. Mae angen cyflawni gwaith cynnal a chadw i atgyweirio'r to fflat oherwydd ei fod yn gollwng dŵr, ail blastro'r holl waliau mewnol, rhoi gorchuddiadau llawr newydd, rhoi allyrwyr gwres ac ail addurno manau cyhoeddus yn y llys.

Dylid nodi bod Cyngor Tref Caergybi yn ystyried yr adeilad yn adeilad pwysig o fewn Ardal Gadwraeth Caergybi. Felly byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n newid ymddangosiad neu strwythur adeilad y llys.

Bydd Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon yn dod yn adeilad llys mawr, modern, aml-awdurdodaeth. Bydd nifer yr ystafelloedd llys (bydd pedair ystafell ychwanegol yn cael eu hadeiladu er mwyn gallu symud Llys Sifil a Theulu Caernarfon) a'r capasiti sydd ar gael yno yn gwneud y Ganolfan Cyfiawnder yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith a symudir o Llys Ynadon Caergybi.

## Llwyth gwaith

Tua 20% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

## Lleoliad

Mae Caerdybi wedi'i lleoli ar arfordir Gogledd Orllewin Ynys Môn.

Mae Caerdybi 29 milltir i ffwrdd o Gaernarfon ac mae'r daith mewn car yn cymryd oddeutu 35 munud. Ceir gwasanaeth bws rheolaidd (gwasanaethau Arriva 4/4A/X4 a 05/X5/5C/5S) o Gaerdybi i Gaernarfon trwy Fangor. Mae'r daith bws o Gaerdybi i Gaernarfon yn cymryd oddeutu 2 awr a 10 munud, gan gynnwys newid bws ym Mangor. Pris tocyn dwyffordd o Gaerdybi i Gaernarfon yw £5.00.

Ffordd arall o gyrraedd Caernarfon o Gaerdybi gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yw ar drên o Gaerdybi i Fangor, a mynd ar fws o Fangor i Gaernarfon. Mae taith ar drên a bws o Gaerdybi i Gaernarfon yn cymryd oddeutu 1 awr 33 munud ac mae tocyn yn costio £14.70.

Ar hyn o bryd, mae'n bosib ystyried eithriadau i'r gallu i fod yn bresennol yn y llys ar amser penodol ar sail achosion unigol, a gellir delio â hwy drwy'r prosesau rhestru.

Mae Ynys Môn yn ardal wledig i raddau helaeth, ond mae hefyd agwedd ddiwydiannol i'r ardal. Caerdybi yw'r dref gyda'r boblogaeth fwyaf ar Ynys Môn.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Llwyth gwaith ynadon:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	75%	Mewn car	0-30mun	0%
	30-60mun	25%		30-60mun	100%
	60-120mun	0%		60-120mun	0%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	46%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	0%
	30-60mun	24%		30-60mun	0%
	60-120mun	17%		60-120mun	79%
	>120 mun	4%		>120 mun	11%
	dim data	10%		dim data	10%

Llwyth Gwaith Llys Teulu:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	75%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	0%
	<b>30-60mun</b>	25%		<b>30-60mun</b>	100%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	46%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	0%
	<b>30-60mun</b>	24%		<b>30-60mun</b>	0%
	<b>60-120mun</b>	17%		<b>60-120mun</b>	79%
	<b>&gt;120 mun</b>	4%		<b>&gt;120 mun</b>	11%
	<b>dim data</b>	10%		<b>dim data</b>	10%

### Goblygiadau i staff

Nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn Llys Ynadon Caergybi.

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £84,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llys Ynadon Caergybi.



## **Llys Sifil a Theulu Llangefni**

### **Y cynnig**

Mae Llys Sifil a Theulu Llangefni yn un o ddau lys sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn,

Mae'r llys yn darparu gwrandawiadau tribiwnlys ac amrediad llawn o wasanaethau llys sifil a theulu, ac eithrio gwaith ysgariad diwrthwynebiad. Yn ogystal, cynhelir gwrandawiadau terfynol achosion amldrac yn Llys Sifil a Theulu Wreccsam.

Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael, ac mae'n debygol y byddai cost y gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal adeiladwaith adeilad y llys a gwella'r cyfleusterau yn cynrychioli gwerth gwael am arian i'r trethdalwr o ystyried y defnydd cyfyngedig a wneir o'r llys ar hyn o bryd.

Cynigir y dylid cau Llys Sifil a Theulu Llangefni a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Bydd angen gwneud rhywfaint o waith galluogi yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon er mwyn symud y gwaith yno.

Ystyriwyd cau Llys Ynadon Llangefni a Llys Sirol Llangefni yn 2010. Y cynnig oedd i gau Llys Sirol Llangefni a symud dros dro i adeilad Llys Ynadon Llangefni nes y gellid ailwampio Llys Ynadon Caerdybi i gymryd y tri llys. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyllid, yn y tymor byr a'r tymor canolig, cynigiwyd y dylid cadw Llys Sirol Llangefni, a chyhoeddwyd hynny yn yr ymateb i Raglen Diwygio'r Ystad Llysoedd yn 2010.

Mae'r llys yn parhau i gael ei danddefnyddio ac, er y cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yno hefyd erbyn hyn, nid yw ar agor bob dydd. Mae ôl-gronid sylweddol o faterion cynnal a chadw yno, nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn y llys ac mae'n gweithredu fel llys dibynnol i Llys Sifil a Theulu Caernarfon. Ni fyddai cadw'r safle yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr. Ein cynnig yw symud Llys Sifil Llangefni i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon a fydd yn darparu cyfleusterau modern, gwell ac sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 i'n defnyddwyr.

### **Adeilad**

Mae Llys Sifil a Theulu Llangefni yn adeilad rhestredig Gradd II a godwyd yn y 1860au. Mae'r adeilad yn cynnwys un ystafell llys, un siambr farnwrol a nifer cyfyngedig o ystafelloedd ymgynghori.

Ceir ramp at y fynedfa yn nhu blaen yr adeilad i ganiatáu mynediad ar gyfer pobl anabl ond fel arall, nid yw'r adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw dros y pum mlynedd nesaf os na fydd y llys yn cau. Mae'r gwaith sy'n angenrheidiol yn cynnwys cyweirio'r to i newid y lapiad plwm, adnewyddu rhannau o'r to fflat, newid y landeri a'r pibelli dŵr glaw, ailblastro'r waliau y tu mewn, newid gorchuddion llawr a ddifrodwyd o ganlyniad i ddŵr yn dod i mewn i'r adeilad, newid y nenfydau crog mewn rhannau o'r adeilad, newid toiledau a'r gegin, gwella systemau aerdymheru a gosod systemau CCTV ar gyfer y tu allan i'r adeilad.

Bydd Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon yn dod yn adeilad llys mawr, modern, aml-awdurdodaeth. Bydd nifer yr ystafelloedd llys (bydd pedair ystafell ychwanegol yn cael ei hadeiladu er mwyn gallu symud Llys Sifil a Theulu Caernarfon yno) a'r capasiti sydd ar gael yno yn gwneud y Canolfan Cyfiawnder yn lleoliad addas ar gyfer y gwaith a symudir o Llys Sifil a Theulu Llangefni.

## Llwyth gwaith

Tua 31% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

## Lleoliad

Mae Llangefni wedi'i lleoli yng nghanol Ynys Môn, ychydig i ddwyrain yr ynys. Mae Llangefni 16 milltir i ffwrdd o Gaernarfon ac mae'r daith mewn car yn cymryd oddeutu 20 munud.

Ceir gwasanaeth bws rheolaidd (gwasanaethau Arriva 4/4A/X4 a 05/X5/5C/5S) o Llangefni i Gaernarfon trwy Fangor. Mae'r daith o Llangefni i Gaernarfon yn cymryd oddeutu 1 awr a 15 munud. Pris tocyn dwyffordd o Llangefni i Gaernarfon trwy Fangor yw £5.00.

Mae'r orsaf drenau agosaf i Llangefni yn Llanfairpwllgwyngyll. Mae trenau'n mynd o Lanfairpwllgwyngyll i Fangor yn rheolaidd ond yn anaml ac mae gwasanaeth bws ar gael wedyn o Fangor i Gaernarfon. Byddai taith o Llangefni i Gaernarfon mewn bws ac ar drên yn cymryd rhwng oddeutu 1 awr 15 munud ac 1 awr 40 munud, a byddai'n costio £8.10.

Mae Ynys Môn yn ardal wledig i raddau helaeth, ond mae hefyd agwedd ddiwydiannol i'r ardal.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
Mewn car	0-30mun	87%	Mewn car	0-30mun	39%
	30-60mun	13%		30-60mun	61%
	60-120mun	0%		60-120mun	0%
	>120 mun	0%		>120 mun	0%
	dim data	0%		dim data	0%
Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	15%	Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus	0-30mun	9%
	30-60mun	43%		30-60mun	21%
	60-120mun	33%		60-120mun	58%
	>120 mun	2%		>120 mun	5%
	dim data	7%		dim data	7%

## Goblygiadau i staff

Nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn Llys Sifil a Theulu Llangefni.

## Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £115,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llys Sifil a Theulu Llangefni.

## **Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot**

### **Y cynnig**

Ar hyn o bryd, Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot yw'r unig lys sifil a theulu yn sir Castell Nedd Port Talbot, ond defnyddir Canolfan Cyfiawnder Port Talbot, sydd wedi'i leoli yn yr un sir, fel lleoliad gwrandawiadau dibynnol.

Mae'r llys yn darparu gwrandawiadau triwlynlys ac amrediad llawn o wasanaethau llys sifil a theulu, ac eithrio gwaith mabwysiadu. Yn ogystal, cynhelir gwrandawiadau terfynol achosion aml-drac yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Abertawe. Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot yw'r ganolfan ganolog ar gyfer gweinyddu achosion ysgariad yng Ngorllewin Cymru.

Mae'r gyfradd ddefnyddio'n isel ac mae'n agos i'r Canolfan Cyfiawnder ym Mhort Talbot. Cynigir, felly, y dylid cau Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot a throsglwyddo'r gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot. Ni fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi er mwyn symud y gwaith yno.

### **Adeilad**

Codwyd adeilad Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot ym 1993. Mae'r adeilad mewn cyflwr digonol ac mae'n cynnwys tair ystafell llys, saith ystafell gyf-weld, cyfleusterau newid cewynnau babanod ac ystafell i blant.

Bydd angen cyflawni gwaith cynnal a chadw hanfodol dros y pum mlynedd nesaf i gadw'r adeilad mewn cyflwr da. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal a chadw cladin allanol, cyweirio landeri a phibelli dŵr, ac adnewyddu'r rhwystr mynediad i gerbydau i mewn i'r safle.

Mae Canolfan Cyfiawnder Port Talbot yn adeilad llys a thriwlynlys modern a godwyd yn ddiweddar, ac mae'n cynnig cyfleusterau da i ddefnyddwyr y llys. Mae'r Canolfan Cyfiawnder yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Ceir pump ystafell llys yng Nghanolfan Cyfiawnder Port Talbot; mae hynny'n ddigonol i gymryd y gwaith a symudir o Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot.

### **Llwyth gwaith**

Tua 42% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae tref Castell Nedd wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o ddinas Abertawe ac i'r gogledd o dref Port Talbot.

Mae Castell Nedd naw milltir i ffwrdd o Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot ac mae'r daith mewn car yn cymryd oddeutu 15 munud.

Ceir cysylltiad rheilffordd rhwng Castell Nedd a Phort Talbot. Mae'r gwasanaethau'n rhedeg yn rheolaidd ac yn aml. Mae'r daith yn cymryd oddeutu pum munud ac mae tocyn dwyffordd yn costio £3.00.

Ceir gwasanaethau bws sy'n rhedeg yn rheolaidd ac yn aml o Gastell Nedd i Bort Talbot (gwasanaethau First 226, 900 ac X4). Mae taith o Bort Talbot i Gastell Nedd yn cymryd oddeutu 50 munud ac mae tocyn dwyffordd yn costio £5.00 (yn defnyddio Tocyn Dyddiol Bae Abertawe) .

Mae agwedd wledig ac agwedd ddiwydiannol, drefol i sir Castell Nedd Port Talbot.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	81%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	82%
	<b>30-60mun</b>	19%		<b>30-60mun</b>	18%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	43%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	22%
	<b>30-60mun</b>	33%		<b>30-60mun</b>	51%
	<b>60-120mun</b>	21%		<b>60-120mun</b>	21%
	<b>&gt;120 mun</b>	1%		<b>&gt;120 mun</b>	5%
	<b>dim data</b>	2%		<b>dim data</b>	1%

### Goblygiadau i staff

Mae 10 aelod o staff wedi'u lleoli yn Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £276,000.

Mae Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot yn adeilad rhydd-ddaliad.

## **Llys Ynadon Pontypridd**

### **Y cynnig**

Mae Llys Ynadon Pontypridd yn un o ddau lys sydd wedi'u lleoli yn Rhondda Cynon Taf a dyma'r unig lys ynadon yn y sir. Mae'r llys yn darparu amrediad llawn o wasanaethau gwaith troseddol llys ynadon.

Cynigir y dylid cau Llys Ynadon Pontypridd a throsglwyddo'r gwaith i Lys Cyfun Merthyr Tudful. Mae'r adeilad hwn yn fwy o ran maint ac yn fwy modern, ac mae'n cynnig ystafelloedd hyblyg a chyfleusterau da i ddefnyddwyr. Bydd angen gwneud rhywfaint o waith galluogi yn Llys Cyfun Merthyr Tudful er mwyn symud y gwaith yno.

### **Adeilad**

Codwyd adeilad Llys Ynadon Pontypridd yn 1977. Mae'r adeilad yn cynnwys tair ystafell llys, wyth ystafell ymgynghori, canolfan un pwrpas i dystion gyda mynedfa ar wahân, ardal gelloedd fodern, manau parcio ar y safle a man parcio caeëdig ar gyfer staff a'r farnwriaeth. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae cost y gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal a chadw'r adeilad, a'r gyfradd ddefnyddio isel yn cynrychioli gwerth gwael am arian i'r trethdalwr.

Er bod yr adeilad wedi cael ei ailwampio yn ddiweddar, gyda'r gwaith hwnnw'n cynnwys adeiladu to newydd, gosod ffenestri, system trin aer a thoiledau newydd, bydd angen gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol dros y pum mlynedd nesaf os na fydd y llys yn cau. Mae'r gwaith sy'n angenrheidiol yn cynnwys newid y gorchuddion llawr drwy'r adeilad cyfan, gwaith ar y system ddraenio, newid y system aerdymheru yn yr ystafell gyfathrebu ar y llawr cyntaf, adnewyddu'r lifft, gwella'r system awyru yn yr ardal gelloedd a gwella'r ffyrdd aer ar yr islawr.

Mae Llys Cyfun Merthyr Tudful yn adeilad llys aml-awdurdodaeth mawr, ond mae'n cael ei danddefnyddio. Ceir yno wyth ystafell llys; pump ar gyfer gwaith troseddol a thri ar gyfer gwaith sifil, teulu a thribiwnlysoedd.

### **Llwyth gwaith**

Tua 43% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio'r llys yn y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae Pontypridd yn ne-ddwyrain sir Rhondda Cynon Taf. Pontypridd yw prif ganolfan weinyddol y sir.

Mae Pontypridd 12 milltir i ffwrdd o Ferthyr Tudful ac mae'r daith mewn car yn cymryd oddeutu 20 munud. Mae gwasanaethau bws rheolaidd rhwng Pontypridd a Merthyr Tudful (gwasanaethau Stagecoach T4 ac x78). Mae taith mewn bws o Bontypridd i Ferthyr Tudful yn cymryd oddeutu 30 munud ac mae tocyn dwyffordd yn costio £5.80.

Ceir cysylltiad rheilffordd rhwng Pontypridd a Merthyr Tudful. Mae trenau'n teithio rhwng y trefi bob hanner awr. Mae'r daith yn cymryd oddeutu 35 munud ac mae tocyn dwyffordd yn costio £3.70.

Mae agwedd wledig ac agwedd ddiwydiannol i Rondda Cynon Taf.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Llwyth gwaith ynadon:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	89%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	78%
	<b>30-60mun</b>	11%		<b>30-60mun</b>	22%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	24%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	15%
	<b>30-60mun</b>	55%		<b>30-60mun</b>	41%
	<b>60-120mun</b>	21%		<b>60-120mun</b>	44%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%

Llwyth Gwaith Llys Teulu:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	89%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	88%
	<b>30-60mun</b>	11%		<b>30-60mun</b>	12%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	16%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	23%
	<b>30-60mun</b>	55%		<b>30-60mun</b>	57%
	<b>60-120mun</b>	28%		<b>60-120mun</b>	20%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%

### Goblygiadau i staff

Mae 14 aelod o staff wedi eu lleoli yn Llys Ynadon Pontypridd.

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £250,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llys Ynadon Pontypridd.

## **Llys Ynadon Prestatyn**

### **Y cynnig**

Llys Ynadon Prestatyn yw'r unig llys ynadon yn Sir Ddinbych. Mae'r llys yn darparu amrediad llawn o wasanaethau gwaith troseddol a gwaith teulu llys ynadon a chynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yno hefyd.

Cynigir y dylid cau Llys Ynadon Prestatyn a chynnal gwaith galluogi yno i'w addasu o fod yn lleoliad gwaith troseddol i fod yn lleoliad gwaith sifil, teulu a thribiwnlysoedd. Byddai'r gwaith galluogi yn golygu y byddai modd trosglwyddo gwaith sifil, teulu a thribiwnlysoedd o Lys Sifil a Theulu y Rhyl i Brestatyn. Byddai gwaith Llys Ynadon Prestatyn yn symud i Llys Ynadon Llandudno, lle na fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi.

Cytunwyd i gau Llys Sifil a Theulu y Rhyl dan Raglen Diwygio'r Ystad Llysoedd yn 2010. O ganlyniad, bydd busnes llys sifil, teulu a thribiwnlysoedd yn symud i'r adeilad lle mae Llys Ynadon Prestatyn ar hyn o bryd.

Petai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai'r Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i ystyried yr angen i uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

### **Adeilad**

Mae Llys Ynadon Prestatyn yn cynnwys tair ystafell llys troseddol ac un ystafell wrandawiadau, ystafelloedd cyfweld, cyfleusterau cyswllt fideo a manau parcio di-dâl ar y safle. Mae'r adeilad yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Er bod y fynedfa a'r cyntedd wedi cael eu hailwampio yn 2012, mae angen gwaith cynnal a chadw dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r gwaith sy'n angenrheidiol yn cynnwys gwaith cynnal cyffredinol ar wyneb allanol y llys, cyweirio waliau y tu mewn i'r llys a ddifrodwyd wrth i ddŵr ddod i mewn i'r adeilad, newid gorchuddion lloriau fesul cam, newid drysau mewnol drwy'r adeilad cyfan, ailaddurno y tu mewn i'r llys fesul cam, newid unedau ymolchi/toiledau fesul cam ac adnewyddu byrddau dosbarthu trydan.

Mae Llys Ynadon Llandudno yn adeilad llys modern sy'n cynnwys tair ystafell llys, ystafelloedd cyfweld ac amrywiaeth dda o gyfleusterau ar gyfer defnyddwyr y llys. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

### **Llwyth gwaith**

Tua 30% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio Llys Ynadon Prestatyn yn y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae Prestatyn 24 milltir i ffwrdd o Landudno. Mae'r daith mewn car o Brestatyn i Landudno'n cymryd tua 40 munud.

Mae llinell reilffordd Arfordir Gogledd Cymru yn mynd drwy Brestatyn a gellir teithio ar drên o Brestatyn i Landudno, trwy Gyffordd Llandudno. Mae'r daith ar drên o Brestatyn i Landudno yn cymryd oddeutu 35 munud ac mae tocyn dwyffordd yn £9.40.

Ceir gwasanaeth bws (gwasanaeth Arriva rhif 13) rhwng Prestatyn a Llandudno. Mae taith o Brestatyn i Llandudno'n cymryd oddeutu 1 awr a 30 munud ac mae tocyn dwyffordd yn £5.00 (Tocyn Dyddiol Cymru i oedolyn).

Mae Sir Ddinbych yn ardal wledig ac mae'r economi leol yn seiliedig ar amaethyddiaeth a thwristiaeth yn bennaf.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	87%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	24%
	<b>30-60mun</b>	13%		<b>30-60mun</b>	76%
	<b>60-120mun</b>	0%		<b>60-120mun</b>	0%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	0%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	32%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	0%
	<b>30-60mun</b>	47%		<b>30-60mun</b>	33%
	<b>60-120mun</b>	19%		<b>60-120mun</b>	63%
	<b>&gt;120 mun</b>	0%		<b>&gt;120 mun</b>	3%
	<b>dim data</b>	2%		<b>dim data</b>	2%

### Goblygiadau i staff

Nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn Llys Ynadon Prestatyn.

### Gwybodaeth arall

Gan y byddai'r adeilad hwn yn cael ei gadw, mae'n debygol y byddai'r costau gweithredu blynyddol yn aros yn debyg i'r lefel bresennol, sef tua £168,000.

Adeilad rhydd-ddaliad yw Llys Ynadon Prestatyn.



## **Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton)**

### **Y cynnig**

Cynhelir gwrandawiadau apêl Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant yn Nhriviwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton).

Mae'r adeilad yn Rhyd Broughton yn anaddas fel adeilad sy'n rhan o ystad llysoedd a thriwilysoedd modern. Byddai buddsoddi yn y gwaith gwella ac atgyweirio angenrheidiol yn cynrychioli gwerth gwael am arian i'r trethdalwr, yn enwedig o ystyried y lleihad yn y defnydd a wneir o'r safle.

Cynigir y dylid cau'r lleoliad yn Rhyd Broughton a throsglwyddo'r gwaith i Lysoedd Barn Wrecsam a Llysoedd Barn yr Wyddgrug. Ni fyddai angen cynnal unrhyw waith galluogi er mwyn symud y gwaith yno.

### **Adeilad**

Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n berchen ar adeilad Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) ac mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn ei rentu ar brydles.

Mae'r adeilad tribiwnlys yn cynnwys tair ystafell wrandawiadau, un ystafell feddygol ac un ystafell ymneilltuo i'r farnwriaeth. Mae'r manau aros yn fach. Er bod yr adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr adeilad yn wael. Nid oes cyfleusterau cyswllt fideo ar gyfer defnyddwyr.

Mae angen gwella trefniadau diogelwch yn y tribiwnlys. Dim ond drwy'r ardaloedd cyhoeddus y gall y staff a'r farnwriaeth fynd i mewn i'r llys ac nid yw'n bosib i staff neu swyddogion diogelwch wyllo'r mynedfeydd i rai o'r ystafelloedd llys.

Mae Llysoedd Barn Wrecsam yn adeilad llys modern, sy'n darparu lefel dda o gyfleusterau i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'r adeilad llys yn cynnwys chwe ystafell llys ac mae ganddo'r capasiti i gymryd y gwaith a symudir o Wrecsam (Rhyd Broughton), ac mae yng nghanol y dref.

Mae Llysoedd Barn yr Wyddgrug yn cynnwys saith ystafell llys ac mae'n adeilad llys aml-awdurdodaeth, modern sy'n darparu lefel dda o gyfleusterau i ddefnyddwyr.

### **Llwyth gwaith**

Tua 12% o'r capasiti oedd cyfradd ddefnyddio Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15.

### **Lleoliad**

Mae Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) ddwy filltir i ffwrdd o adeilad Llysoedd Barn Wrecsam ym Modhyfryd, Wrecsam. Mae'r llys ym Modhyfryd mewn lleoliad mwy canolog na'r safle yn Rhyd Broughton.

Mae Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) 11 milltir i ffwrdd o Lysoedd Barn yr Wyddgrug ac mae'r daith mewn car yn cymryd oddeutu 25 munud.

Nid oes cysylltiad rheilffordd rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug.

Mae gwasanaeth bws rheolaidd (gwasanaeth Townlynx 28) yn cysylltu Wrecsam a'r Wyddgrug. Mae bysiau'n rhedeg rhwng 08:00 a 17:22 (o Wrecsam i'r Wyddgrug) ac mae'r daith yn cymryd oddeutu 45 munud. Am y rhan fwyaf o'r dydd, mae'r gwasanaeth yn rhedeg bob awr, ond ceir cyfnodau pan fyddai'n rhaid i ddefnyddiwr aros am fwy nag un awr am fws. Mae tocyn dwyffordd o Wrecsam i'r Wyddgrug yn £3.70.

Isod, dangosir y data amser teithio ar gyfer y llys hwn cyn ac ar ôl cau:

Cyn	Amser	%	Ar ôl	Amser	%
<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	22%	<b>Mewn car</b>	<b>0-30mun</b>	22%
	<b>30-60mun</b>	33%		<b>30-60mun</b>	33%
	<b>60-120mun</b>	40%		<b>60-120mun</b>	40%
	<b>&gt;120 mun</b>	4%		<b>&gt;120 mun</b>	4%
	<b>dim data</b>	0%		<b>dim data</b>	0%
<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	7%	<b>Gyda Thrafnidiaeth Gyhoeddus</b>	<b>0-30mun</b>	7%
	<b>30-60mun</b>	14%		<b>30-60mun</b>	14%
	<b>60-120mun</b>	27%		<b>60-120mun</b>	27%
	<b>&gt;120 mun</b>	39%		<b>&gt;120 mun</b>	39%
	<b>dim data</b>	13%		<b>dim data</b>	13%

### Goblygiadau i staff

Nid oes aelodau staff wedi'u lleoli yn Rhyd Broughton.

### Gwybodaeth arall

Roedd costau gweithredu'r triwlynlys yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 oddeutu £195,000.

Adeilad ar brydles yw Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton).

## Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion? Pa sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion?**

**Cwestiwn 2: A fydd y cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau llysoedd a thriwlysoedd yn effeithio'n uniongyrchol arnoch chi? Os byddant, rhowch ragor o fanylion.**

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw effeithiau penodol eraill y byddai'r cynigion yn eu cael y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlysoedd EM eu hystyried wrth ddod i benderfyniad? Rhowch fanylion.**

**Cwestiwn 4: Mae ein hasesiad o'r effeithiau tebygol a'r dadansoddiad i gefnogi i'w gweld yn yr Aseiad o Effaith sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd neu'r casgliadau a wnaed? Darparwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol y credwch a fyddai o gymorth.**

**Cwestiwn 5: A oes opsiynau eraill heblaw teithio i adeilad penodol a fyddai o fudd i rai defnyddwyr? Gallai'r rhain gynnwys defnyddio technoleg i ymgysylltu o bell neu ddefnyddio adeiladau eraill, dinesig neu gyhoeddus ar gyfer gwrandawiaid yn ôl y galw. Eglurwch eich ateb, gan roi enghreifftiau penodol a thystiolaeth o'r galw posib am y gwasanaeth, lle bo hynny'n bosib.**

**Cwestiwn 6: Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.**

**Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghorol hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw cwmni/sefydliad</b> (os yn berthnasol)	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch grynodeb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 8 Hydref 2015 i:

Ymgynghoriad GLITEM  
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder  
Post point 1.13  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

**Ffôn:** 0161 240 5021

**Ffacs:** 0870 761 7768

**Ebost:** [estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk)

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch o broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

### Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall (gweler y manylion uchod).

### Cyhoeddi ymateb

Bydd papur ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ar gael ar-lein yn [www.justice.gov/moj](http://www.justice.gov/moj).

### Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth (sef, yn sylfaenol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan y DRhG, bod yna God Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwnnw'n delio ag ymrwymadau o ran cyfrinachedd, ymysg materion eraill. O ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni

ystyir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r DDD, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

## **Asesiad o Effaith**

**[Cyfarwyddiadau:** Asesiad o Effaith cynigion sy'n debygol o effeithio ar fusnesau, elusennau, y sector gwirfoddol neu'r sector cyhoeddus – gweler y canllawiau yn: (<https://www.gov.uk/government/publications/impact-assessment-template-for-government-policies>)

## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>



[leave blank – inside back cover]

© Hawlfraint y Goron 2015  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

**Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill drwy wneud cais i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (gweler uchod i gael manylion cyswllt).**